Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Deall datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Deall sut mae DPP yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol, pa weithgareddau dysgu sy'n cyfrif fel DPP, a sut gallwch chi ddefnyddio ymarfer myfyriol i gymhwyso'r hyn rydych chi'n ei ddysgu yn eich rôl.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 October 2026
Diweddariad olaf: 10 November 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai

> nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i
> https://gofalcymdeithasol.cymru/deall-datblygiad-proffesiynol-parhaus-dpp
> am y fersiwn diweddaraf.

Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yw'r dysgu a'r datblygiad a wnewch chi drwy gydol eich gyrfa i gynnal a datblygu eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch ymarfer.

Mae DPP yn chwarae rhan bwysig mewn ymarfer proffesiynol, gan eich helpu chi i:

- gadw eich dysgu yn gyfredol
- addasu i newidiadau mewn arfer
- barhau i ddarparu gofal a chymorth diogel, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r dudalen hon yn egluro sut mae DPP yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol, pa weithgareddau dysgu sy'n cyfrif fel DPP, a sut gallwch chi ddefnyddio ymarfer myfyriol i gymhwyso'r hyn rydych chi'n ei ddysgu yn eich rôl.

Mae angen i bob gweithiwr cofrestredig ymgymryd â DPP. Gallwch ddysgu mwy am eich cyfrifoldebau ar ein tudalennau cofrestru.

Pam mae DPP yn bwysig?

Mae DPP yn golygu eich bod yn cael y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau diweddaraf sydd eu hangen ar gyfer eich rôl. Mae'n eich helpu i ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau, ymchwil ac arfer gorau, fel y gallwch barhau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel.

Gall DPP hefyd eich helpu i:

- feithrin hyder yn eich rôl

- ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau
- nodi eich anghenion dysgu a datblygu
- baratoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd
- gefnogi datblygiad gyrfa.

Beth sy'n cyfrif fel DPP?

Mae DPP yn cynnwys dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cyrsiau hyfforddi a chymwysterau
- e-ddysgu
- gweminarau, gweithdai a chynadleddau
- canllawiau darllen, ymchwil ac erthyglau
- podlediadau a fideos
- goruchwyliaeth fyfyriol
- mentora neu hyfforddi
- trafodaethau proffesiynol
- dilyn cydweithwyr
- dysgu o adborth a phrofiad.

Bydd y gweithgareddau dysgu rydych chi'n eu dewis yn amrywio yn ôl camau gwahanol eich gyrfa. Dylech ganolbwyntio ar yr hyn sy'n eich helpu i ddatblygu'n broffesiynol ac yn gwella eich ymarfer.

Ymarfer myfyriol

Mae ymarfer myfyriol yn rhan bwysig o DPP.

Mae myfyrio yn eich helpu i feddwl am yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu, pam ei fod yn bwysig i'ch rôl a sut y gallwch ei ddefnyddio i wella eich ymarfer.

Gallwch fyfyrio ar ddysgu drwy ofyn i chi'ch hun:

- beth ydw i wedi'i ddysgu?
- pam ei fod yn bwysig?
- sut byddaf yn defnyddio hyn yn fy rôl?
- pa wahaniaeth allai hyn ei wneud i'r bobl rydw i'n eu cefnogi ?

Mae myfyrio ar eich dysgu yn eich helpu i roi gwybodaeth a sgiliau newydd ar waith ac yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol parhaus.

Gallwch hefyd fyfyrio drwy sgyrsiau gydag eraill.

Gallwch ddod o hyd i ganllawiau ymarferol, offer myfyrio ac enghreifftiau yn yr adran ymarfer myfyriol.

Cefnogi DPP trwy oruchwyliaeth

Mae goruchwyliaeth yn rhoi cyfle i chi drafod eich anghenion dysgu a datblygu gyda'ch rheolwyr. Gall y sgyrsiau hyn eich helpu i nodi cyfleoedd dysgu sy'n cefnogi eich rôl ac yn gwella'r gofal neu'r gefnogaeth rydych chi'n ei ddarparu.

Mae goruchwyliaeth hefyd yn eich galluogi i drafod yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu ac ystyried sut y gallwch ei ddefnyddio yn eich rôl. Mae rhannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu gyda chydweithwyr, er enghraifft mewn cyfarfodydd tîm, yn rhoi cyfle i bawb ddysgu oddi wrth ei gilydd a gwella eu harferion.

Cynllunio eich datblygiad

Dylai eich dysgu a'ch datblygiad barhau trwy gydol eich gyrfa.

Gall y Codau Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) eich helpu i ddeall y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich rôl. Gallwch hefyd eu defnyddio i arwain sgyrsiau dysgu a datblygu yn ystod goruchwyliaeth.

Gall cynllunio eich datblygiad eich helpu i:

- nodi blaenoriaethau dysgu
- meithrin hyder
- paratoi ar gyfer cyfrifoldebau newydd
- archwilio cyfleoedd datblygu gyrfa.

Efallai y byddwch hefyd yn gweld bod y Fframwaith Tâl a Dilyniant a'r Fframwaith cymwysterau yn ddefnyddiol wrth gynllunio cyfleoedd dysgu a chynnydd yn y dyfodol.

Mae dysgu, myfyrio a goruchwylio yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi eich datblygiad proffesiynol parhaus.

Camau nesaf

- Defnyddiwch yr adran ddysgu i ddod o hyd i adnoddau sy'n cyd-fynd â'ch rôl a'ch anghenion datblygu.
- Siaradwch â'ch rheolwr am eich anghenion dysgu a datblygu yn ystod sesiynau goruchwylio. Gyda'ch gilydd, gallwch nodi cyfleoedd dysgu sy'n cefnogi eich rôl a'ch datblygiad proffesiynol.
- Ewch i'r adran ymarfer myfyriol i gael arweiniad ac offer ymarferol i'ch helpu i roi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith.

- Os ydych chi'n cefnogi eraill, ewch i'r adran cefnogi dysgu a myfyrio i gael arweiniad ar greu diwylliant dysgu cadarnhaol a defnyddio goruchwyliaeth i gefnogi datblygiad proffesiynol.

Tudalennau cysylltiedig

- Dysgu
- Ymarfer myfyriol
- Cefnogi datblygiad proffesiynol
- Datblygiad proffesiynol parhaus (cofrestru)
- Codau Ymarfer Proffesiynol
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Fframwaith tâl a dilyniant
- Fframwaith cymwysterau